**CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN TOWN COUNCIL**

**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB**
**Maer Cyng Nia Jones Dirprwy Faer Cyng Sharne-Marie Bellis**

**AGENDA Nos Fercher Rhagfyr 3ydd, 2025**
**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Microsoft Teams**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Tachwedd 12fed, 2025 (DLlL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn cais grant s 137 gan Neuadd Gymunedol Llanfairfechan
7. Derbyn yr archwiliad allanol wedi'i gwblhau a thrafod yr adroddiad
8. Derbyn a chymeradwyo adroddiadau ariannol a thaliadau cyfredol ar gyfer Rhagfyr 3ydd, 2025

| **Taliadau i'w cyflwyno** |
|---|
| **1. Taliadau staffio a phensiwn ar gyfer Rhagfyr 2025 - £5000.00** |
| **2. Menter Iaith Gwaith Cyfieithu £353.89** |
| **3. Amazon bynting ar gyfer y ffenestr £9.49** |
| **4. i7 Technologies Limited systemau TG wrth gefn £84.60** |
| **5. Worldcare Skips £258.00** |
| **6. Graham Cawthray gwobr ffenestr siop £45.00** |

9. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:

0/53000 Northfield Y Clos Llanfairfechan Conwy LL33 0AD
0/52988 39 Parc Henblas Llanfairfechan LL33 0RW
0/52971 Glanarvon Ffordd Penmaenmawr Llanfairfechan Conwy LL33 0PA
0/52972 Efrydfa 15 Y Clos Llanfairfechan Conwy LL33 0AG

10. Derbyn gohebiaeth
11. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau
12. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w hystyried a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

**Nos Fercher Rhagfyr 3ydd, 2025**

**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Teams**

**COFNODION**

**Yn bresennol: Cadeirydd: Maer Nia Jones; Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis; Cyng Leena Farhat; Cyng Andrew Hinchliff BEM. Cyng Chris Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg; Clerc y Dref: Jayne Neal**

**1. Croesawodd y Maer Nia Jones bawb i'r cyfarfod a chytunwyd ar recordio'r cyfarfod at ddibenion cadw cofnodion.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12) Cynghorydd Sir Penny Andow; Cyng Charlotte Davies; Cyng Rhys Griffiths. Nodwyd bod y ddwy sedd wag ar gyfer Cynghorwyr Tref wedi'u rhannu ar hysbysfwrdd y Cyngor Tref yn y neuadd, ar y wefan ac ar y dudalen Facebook. Cytunwyd ar fynd ati i recriwtio yn y flwyddyn newydd gan ddefnyddio fideos a gwybodaeth am ein gwaith.** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)**

**Bu i'r Cyng A Hinchliff; Cyng Chris Jones a Chyng Christine Roberts ddatgan diddordeb personol yn Eitem 6 fel Cyfarwyddwyr Neuadd Gymunedol Llanfairfechan. Bu i'r Cyng AR Jones a'r Cyng N Jones ddatgan diddordeb personol fel aelodau'r gymuned ar bwyllgor Neuadd Gymunedol Llanfairfechan. Bu i'r Cyng Christine Roberts; Cyng Sharne-Marie Bellis; Cyng Preben Vangberg ddatgan diddordeb personol fel aelodau o'r Pwyllgor Gefeillio Trefi. Nid ydy'r rhain yn ddiddordebau rhagfarnus gan nad ydy'r Cynghorwyr yn derbyn unrhyw fudd ariannol o'r grantiau cymunedol hyn ac fe gaiff yr holl gyllid ar gyfer y grwpiau ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect cymunedol.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd**

**Dim** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Tachwedd 12fed, 2025 (DLlL1972 Atodlen 12)**

**Cafodd y rhain eu nodi wedi eu darllen gyda dau fater yn cael ei godi:**

**Eitem 14.6 Nodwyd bod y sawl oedd yn cysgu'n arw bellach wedi symud i'r eglwys ac yn derbyn cymorth gan sefydliadau cefnogi. Y gobaith ydy y caiff llety ei sortio yn fuan.**

**Eitem 14.7 Mae gwaith wedi'i archebu ar gyfer y post marciwr ar y cob ac fe gaiff ei gwblhau cyn gynted â phosibl.**

**Eitem 14.8 Rydym wedi rhoi gwybod am y cwteri ac mae rhai wedi'u clirio. Y Clerc i holi pryd gaiff gweddill y cwteri eu clirio. Nodwyd hefyd bod y dail yng Nghae Ffynnon wedi gwella ond mae'n ddadleuol a ydy CBSC wedi bod allan i wneud hyn. Y Clerc i geisio gwybodaeth a ydy'r tîm wedi bod allan yn Llanfairfechan.**

**Cyflwynwyd Rhestr Weithredu a derbyniodd y Cyngor Tref adroddiad cynnydd ar y gwaith ar gyfer mis Tachwedd a Rhagfyr.** **Cynigydd Cyng C Jones Eilydd Cyng C Roberts Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**6. Derbyn cais grant s 137 gan Neuadd Gymunedol Llanfairfechan**

**Nodwyd bod y ddau grant yma wedi'u cynnwys yng nghyllideb yr archebiant ar gyfer 2025. Cais Gefeillio Trefi £1500 wedi'i gymeradwyo. Cais Neuadd Gymunedol Llanfairfechan £5000 wedi'i gymeradwyo, mae hyn yn fwy na'r hyn gaiff ei roi fel arfer ond cytunwyd bod angen am yr arian fel arian cyfatebol ar gyfer y cais grant Ynni Gwyrdd gaiff ei ddatblygu ar y funud.**

**Grant s176 Gefeillio Trefi: Cynigydd Cyng C Jones Eilydd Cyng A Hinchliff Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**Grant 319 Neuadd Gymunedol Llanfairfechan: Cynigydd Cyng C Jones Eilydd Cyng A Hinchliff Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**7. Derbyn yr archwiliad allanol wedi'i gwblhau a thrafod yr adroddiad**

**Nododd y Clerc, er bod elfen ariannol yr archwiliad wedi'i derbyn a'i chytuno, cafodd adroddiad cymwys ei roi gan ein bod wedi methu ag adrodd ar adroddiad y llynedd yn gywir. Y Clerc i sicrhau bod adroddiadau'r Archwiliad i'w gweld yn gyhoeddus ar y wefan - caiff y wefan ei diweddaru er mwyn dangos hyn o hyn ymlaen. Bu i'r Clerc ymddiheuro am yr esgeulustod hwn a bydd yn gweithredu hyn cyn gynted â phosib.**

**Cynigydd Cyng P Vangberg Eilydd Cyng L Farhat** **Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**8. Derbyn a chymeradwyo adroddiadau ariannol a thaliadau cyfredol ar gyfer Rhagfyr 3ydd, 2025**

**Cafodd y rhain eu derbyn wedi'u darllen ac nid oedd unrhyw fater yn codi.**

**Cynigydd Cyng A Hinchliff Eilydd Cyng P Vangberg** **Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**9. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:**

**0/53000 Northfield Y Clos LL33 0AD - Dim sylwadau**

**Ar gyfer y tair eitem ganlynol, roedd gan yr is-bwyllgor amgylcheddol newyddion da. Mae gan CBSC bellach swyddog coed newydd mewn lle ac felly bydd modd anfon unrhyw sylwadau gan y Cyngor Tref am goed yn uniongyrchol at y swyddog. Mae hwn yn gam cadarnhaol i'r Cyngor Tref gan fod gwarchod yr amgylchedd a'r canopi coed cyfoethog yn nod allweddol.**
**0/52988 39 Parc Henblas Llanfairfechan LL33 0RW – awgrymu bod y swyddog coed yn ymweld â'r safle.**
**0/52971 Glanarvon Ffordd Penmaenmawr LL33 0PA - awgrymu bod y swyddog coed yn ymweld â'r safle.**
**0/52972 Efrydfa 15 Y Clos LL33 0AG – cytuno ar leihau corun coeden ffawydd o 2-3 metr ac ail-docio coeden gastan ar ryw bwynt**

**10. <u>Derbyn gohebiaeth</u>**

**1. Mae'r Cyngor Tref wedi edrych mewn i ymholiad gan Glwb Pêl-droed Llanfairfechan ynglŷn ag atal parcio ar draws eu hallanfa argyfwng. Mae CBSC wedi ymateb i ddweud y byddant yn darparu Marciau Diogelu Mynediad i rwystro pobl rhag parcio yma a cheisio datrys y broblem. Fodd bynnag, nodwyd, er mwyn i hyn weithio y bydd angen i yrwyr gydweithredu a'r gobaith ydy y caiff yr allanfa argyfwng ei chadw'n glir yn y dyfodol.**

**2. Daeth e-bost i mewn gan breswylydd ynglŷn â fan wersylla wedi parcio ar Terrace Walk. Rydym wedi anfon yr ymholiad ymlaen at GBSC ac wedi derbyn gwybodaeth a'i anfon ymlaen at y preswylydd. Nid oes rheolaeth parcio yn yr ardal. Er mwyn gallu symud ymlaen bydd angen tystiolaeth glir fod y fan wersylla yn rhwystro unrhyw beth - lluniau ac adroddiadau manwl gan breswylwyr. Roedd y tîm parcio wedi ymweld â'r ardal yn flaenorol a heb weld unrhyw broblem gan nodi bod gan y rhan fwyaf o eiddo yn yr ardal eu lle parcio eu hunain oddi ar y ffordd.**

**3. Daeth e-bost i mewn gan breswylydd oedd yn pryderu am y gordyfiant yn y mynwentydd â'r biniau gorlawn. Rydym wedi cysylltu â'r Swyddog Mynwentydd ac fe gafodd y gwaith ei wneud yn brydlon - anfonodd y preswylydd nodyn o ddiolch am hyn.**

**4. Cafodd gwybodaeth ei rhannu drwy e-bost i breswylydd oedd yn holi am glybiau natur awyr agored yn y dref. Awgrymodd y preswylydd y gallai fod â diddordeb arwain clwb o'r fath a rhoddwyd ychydig o gyngor ynglŷn â'r broses. Gallai Nant y Coed fod yn safle addas gan ei fod eisoes yn rhan o'r Cynllun Kickstarter.**

**5. Derbyniwyd gwybodaeth gan GBSC ynglŷn â goleuadau stryd yng Nghae Ffynnon. Mae'r adroddiadau wedi'u hanfon at Scottish Power sy'n gweithio ar ddatrys y broblem. Gall hon fod yn broblem hirdymor gan fod angen ymchwiliad pellach cyn dod o hyd i ddatrysiad.**

**<u>11. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau</u>**

**1. Gefeillio Trefi – Mae 36 person wedi archebu lle ar gyfer y daith y flwyddyn nesaf felly mae 15 lle ar gael o hyd. Mae'r Clwb Pêl-droed dal i ystyried mynd ar y daith. Mae llawer o weithgareddau codi arian wedi'u trefnu ar gyfer y misoedd nesaf.**

**2. Darganfod Llanfairfechan - Calendr wedi gwerthu 220 yn ogystal â nwyddau eraill hefyd. Mae'r gwaith Cynllun Bro yn cael ei ddatblygu, ac mae'r arolwg wedi'i oedi nes ar ôl Ymgynghoriad Adnau RLDP. Mae'r grŵp wedi cytuno rhoi cais i mewn i Dŵr Anafon neu ARC ar gyfer gwaith i wella safle nythu'r cornicyllod ac atgyweirio'r cuddfannau ym Morfa Madryn - gwybodaeth yn cael ei chasglu gyda'r cais angen bod mewn erbyn mis Ionawr. Cytunodd y Cyngor Tref i gefnogi gyda llythyr a bydd yn helpu gyda'r cais os bydd angen.**

**3. Llyfrgell Gymunedol – Mae swyddog cysylltu Llyfrgelloedd Cymunedol CBSC bellach mewn lle a bydd hyn yn helpu gyda'r gwaith partneriaeth yn sylweddol. Gall y trawst sydd wedi bod yn achosi problem bellach gael ei drin yn hytrach na'i dynnu – gall hyn fod yn newyddion da. Mae'r CLG yn cael ei drafod o hyd. Mae pwyllgor y Llyfrgell wedi cytuno i fenthyg y ramp ar gyfer y Farchnad Nadolig ddydd Sul – diolchwyd am hyn.**

**4. Neuadd Gymunedol Llanfairfechan – Mae'r ffigyrau diwedd y flwyddyn ar gyfer llogi ystafell wedi gwella ac mae hyn wedi cynyddu oherwydd y digwyddiadau mewnol sydd wedi'u datblygu gan y Swyddog Cefnogi Busnes. Mae grŵp gwirfoddoli gwych wedi'i ddatblygu gyda 27 o wirfoddolwyr ar y llyfrau, ac mae hyn yn helpu i gefnogi'r digwyddiadau mewnol.**

**5. Aeth y Dirprwy Faer i dderbyniad dinesig Conwy a'r orymdaith wrth olau ffaglau gan nodi ei fod yn achlysur hyfryd ac eithrio'r glaw trwm. Digwyddiad rhyngweithio da.**

**6. Cynhaliodd y Maer ddigwyddiad bingo elusennol er budd Neuadd Gymunedol Llanfairfechan lle codwyd £542. Roedd yr adborth yn wych ac fe gaiff un arall ei gynnal o gwmpas y Pasg.**

**7. Cyfarfod archebiant ar y cyd y Pwyllgor Cyllid a Staffio - Aelodau'r pwyllgor staffio oedd yn bresennol bennaf yn y cyfarfod felly roedd y ffocws ar faterion staffio. Mae angen ystyried y broses recriwtio wrth symud ymlaen yn ogystal â'r swyddi eu hunain unwaith bydd y Clerc presennol yn ymddeol. Y Clerc wedi derbyn y dasg o gynhyrchu adolygiad staffio ar gyfer y cyfarfod archebiant gyda gwahanol ddewisiadau i'w trafod ar gyfer y swydd wrth symud ymlaen. Cais allweddol gan y tîm staffio ydy bod y gwaith o recriwtio Dirprwy Glerc newydd yn dechrau ym mis Awst**

**er mwyn caniatáu ar gyfer chwilio yn ehangach, o bosibl drwy asiantaeth recriwtio ac y dylai'r swydd fod yn barod i'w dechrau ar y 1af o Ionawr, 2027. Prif beth i'w ystyried ydy pa swydd ddylai gynnwys y gwaith o reoli'r farchnad. Cafwyd trafodaeth lawn ar y pwnc hwn, a chytunwyd ar alw am gyfarfod cyllid pellach yn ystod wythnos gyntaf mis Ionawr fel bod yr holl wybodaeth yn barod ar gyfer yr eitem archebiant yng nghyfarfod y Cyngor Tref ar Ionawr y 14eg.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**12. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w hystyried a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol**

**Dim. Daeth y cyfarfod i ben am 8:45yh**
**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**